

## YMARFER 12: Sylwadau

The legal requirements governing Religious Education (RE) in Schools were set out in the Education Reform Act of 1988<sup>1</sup> and confirmed by the Education Acts of 1996 and 1998.<sup>2</sup> Although RE is a statutory subject, it is not part of the National Curriculum. The content of RE in maintained schools is determined at local authority level and each authority must review its agreed syllabus every five years<sup>3</sup>. An agreed syllabus<sup>4</sup> should reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian while taking account of the teachings and practices<sup>5</sup> of the other principal religions represented.

Each local authority must set up a standing advisory council on religious education (SACRE\*) to advise the authority on matters connected with RE. Each council comprises four representative groups: Christian and other religious denominations, the Church of England, teachers' associations and the local authority.

RE must be provided for all registered pupils in maintained schools and academies, including those in Reception classes and sixth forms.

Academies must provide RE in accordance with their funding agreements, which generally reflect the provisions that apply to local authorities and schools in the maintained sector.

RE in voluntary aided schools must be provided in accordance with the wishes of the governing body. In community and voluntary controlled schools, it must be provided in accordance with the local agreed syllabus.<sup>6</sup> Parents have the right to withdraw their children from RE<sup>7</sup> and this right should be identified in the school prospectus.

\*CYSAG

[addasiad o wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig]

1. **Cywair/  
Cywirdeb/  
Ystyr**      **...in the Education Reform Act of 1988**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...yn y Ddeddf Diwygiad Addysg 1988*
2. *...yn y Ddeddf Diwygio Addysg 1988*
3. *...yn Neddf Diwygio Addysg Grefyddol 1988*
4. *...yn Neddf Diwygiad Addysg 1988*
5. *...yn Ddeddf Ddiwygio Addysg 1988*

6. *...yn y Ddeddf Diwygiant Addysg 1988*

7. *...yn y Ddeddf Addysg 1988*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn Neddf Diwygio Addysg 1988*

SYLWADAU:

1. Wrth gyfeirio at enw deddf sy'n cynnwys y flwyddyn nid oes angen y fannod, felly *yn Neddf* sy'n gywir.

2. Mae'r arddodiad 'yn' yn achosi treigladd trwynol ac nid treigladd meddal, felly *yn Neddf* ac nid *yn Ddeddf* (enghraifft Afl.5) sy'n gywir.

3. Mae berfenwau megis *diwygio* yn cael eu defnyddio'n fwy aml nag enwau wrth gyfieithu enwau deddfau ac ati ac mae *diwygiant* a *diwygiad* yn swnio'n chwithig iawn yn yr enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus.

4. Yn enghraifft Afl. 5 noder er bod 'deddf' yn enw benywaidd nad oes angen treiglo 'diwygio' yn feddal ar ei ôl gan fod y cysylltiad rhwng 'diwygio' ac 'addysg' yn gryfach na'r cysylltiad â'r enw benywaidd. Mae adran ddefnyddiol iawn am hyn yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 382-386.

5. Yn enghraifft Afl.3 mae'r gair *grefyddol* wedi cael ei ychwanegu ac yn enghraifft Afl.7 mae'r gair 'diwygio' wedi cael ei hepgor, sy'n newid yr ystyr yn y ddwy enghraifft. Mae hyn yn dangos mor bwysig yw edrych dros eich gwaith yn ofalus ar ôl gorffen y cyfieithiad er mwyn sylwi ar unrhyw eiriau sydd wedi cael eu hychwanegu neu eu hepgor.

2. **Cywair/  
Cystrawen/  
Cywirdeb/  
Ystyr**

**The legal requirements governing Religious Education (RE) in Schools were set out in the Education Reform Act of 1988 and confirmed by the Education Acts of 1996 and 1998.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Cafodd yr anghenion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion eu trefnu yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'i chadarnhau gan Ddeddfau Addysg 1996.*
2. *Cafodd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion eu gosod allan yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a chawsant eu hategu gan y Deddfau Addysg yn 1996 a 1998.*
3. *Amlinellwyd y gofynion cyfreithiol sy'n rheoli Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion yn Neddf Diwygio Addysg 1988 ac fe'u hatgyfnerthwyd gan Ddeddfau Addysg 1996 ac 1998.*
4. *Lluniwyd y gofynion cyfreithiol sy'n llywio Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac chadarnhawyd y rhain gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1998.*
5. *Mae'r gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion yn cael eu olrhain yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'u cadarnhau gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1988.*

6. *Roedd yr ofynion cyfreithiol Addysg Grefyddol (AG) yn ysgolion wedi ei amlinelli yn y Ddeddf Diwygiad Addysg 1988 a chadarnhawyd gan y Deddfau Addysg 1996 a 1998.*
7. *Pennwyd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion yn y Ddeddf Diwygiad Addysg 1988, a gadarnhawyd gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1998.*
8. *Sefydlwyd gofynion llywodraethol cyfreithiol Addysg Grefyddol (AG) mewn ysgolion yn Neddf Diwygiad Addysg 1988 a chadarnhawyd gan Ddeddf Addysg 1996 a 1998.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Cafodd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol mewn Ysgolion eu nodi yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'u cadarnhau yn Neddfau Addysg 1996 a 1998.*
2. *Cafodd gofynion cyfreithiol Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion eu hamlinellu yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'u cadarnhau yn Neddfau Addysg 1996 ac 1998.*

SYLWADAU:

1. Y prif eiriau sy'n peri trafferth yn y frawddeg gyntaf oll yw '**set out**' a '**and confirmed**'. Mae *gosod allan* yn enghraifft Afl.2 yn gyfieithiad slafaid iawn ac nid yw *trefnu*, *olrhain* na *llunio* yn taro deuddeg chwaith. Mae *amlinellu* a *nodi* (enghreifftiau Ll.1 a Ll.2) yn llwyddo i gyfleu'r ystyr yn dda iawn. O ran '**confirmed**', *cadarnhau* sy'n cyfleu'r ystyr orau yn hytrach nag *ategu* neu *atgyfnerthu*.
2. Mae gwahaniaeth rhwng 'gofynion' (*requirements*) ac 'anghenion' (*needs*) ac yn sicr *gofynion* sydd dan sylw yn y frawddeg hon.
3. Noder hefyd yn enghraifft Afl.1 mai 'requirements', sef gair lluosog, sy'n cael eu cadarnhau ac felly *a'u cadarnhau* sy'n gywir.
4. Noder bod amser y ferf yn anghywir yn enghraifft Afl.5. Mae angen yr amser gorffennol.
5. Yn enghraifft Afl.6 defnyddir yr arddodiad anghywir, *yn ysgolion. mewn ysgolion* sy'n gywir gan fod 'ysgolion' yn enw amhenodol yn y frawddeg hon.
6. Mae *a gadarnhawyd* yn enghraifft Afl.7 yn newid yr ystyr gan ei bod yn awgrymu bod y Deddfau Addysg wedi cadarnhau'r Ddeddf Diwygio Addysg yn hytrach na chadarnhau'r gofynion cyfreithiol.
7. Nid yw *a chadarnhawyd* yn enghraifft Afl.8 yn gwneud synnwyr gan nad oes enw neu ragenw wedi'i gynnwys megis 'ac fe'u cadarnhawyd' neu 'a chadarnhawyd y gofynion...'.

3. **Cystrawen/  
Cywirdeb** ...every five years.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...pob pum mlynedd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*bob pum mlynedd*.

SYLW:

1. Yn y frawddeg hon mae 'pob pum mlynedd' yn adferf gan ei fod yn ateb y cwestiwn 'pryd?' ac felly mae angen ei dreiglo'n feddal, *bob pum mlynedd*.

4. **Cystrawen/  
Cywirdeb**     **An agreed syllabus...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*maes llafur a gytunwyd arno*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*maes llafur y cytunwyd arno*

SYLW:

1. Mae'r rhagenw perthynol yn aml yn peri trafferth i ddarpar gyfieithwyr, hynny yw, pryd i ddefnyddio 'a' neu 'y'. Yn yr achos hwn mae'r arddodiad 'ar' yn cyfeirio at yr enw sy'n cael ei ddisgrifio, sef 'maes llafur', ac felly mae angen *y* ac nid *a*. Gallwch ddarllen mwy am y rhagenw perthynol yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 300-302.

5. **Cystrawen/  
Ystyr**     **...while taking account of the teachings and practices...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*tra'n ystyried...*
2. ...*tra'n cymryd i ystyriaeth...*
3. ...*tra hefyd rhoi ystyriaeth i...*
4. ...*tra cymryd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*ond dylid hefyd ystyried...*
2. ...*gan ystyried...*
3. ...*ond dylent hefyd drafod...*
4. ...*wrth ystyried...*
5. ...*gan gymryd i ystyriaeth...*
6. ...*yn ogystal ag ystyried...*

SYLWADAU:

1. Mae berf bob amser yn dilyn y gair 'tra'. Felly nid yw *tra'n* yn enghreifftiau Afl.1 a Afl.2 yn gywir. Mae enghreifftiau Afl.3 ac Afl.4 hefyd yn annerbyniol gan fod 'rhoi' a 'cymryd' yn ferfenwau yn hytrach na berfau.

2. Yn aml iawn bydd gair gwahanol, megis yr arddodiadau *wrth* neu *gan*, yn cyfleu 'while' yn well ac yn osgoi *tra'n*. Gweler enghreifftiau Ll.2, Ll.4 a Ll.5. Mae *hefyd* ac *yn ogystal* yn enghreifftiau Ll.1, Ll.3 a Ll.6 hefyd yn ffordd effeithiol iawn o gyfleu

'while' ac yn swnio'n fwy naturiol yn y Gymraeg.

6. **Cystrawen/ Ystyr** **In community and voluntary controlled schools, it must be provided in accordance with the local agreed syllabus.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae'n rhaid ei ddarparu yn unol â'r maes llafur cytûn mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol dan reolaeth.*
2. *Mewn ysgolion a reolir yn wirfoddol neu gan y gymuned, dylid ei ddarparu yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno yn lleol.*
3. *Mewn ysgolion cymunedol a gwirfoddol dan reolaeth, rhaid iddo gael ei ddarparu yn unol â'r maes llafur cytunedig lleol.*
4. *Mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol dan reolaeth, rhaid i AG cael ei darparu yn ôl y maes llafur lleol cytûn.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, mae'n rhaid i'r pwnc gael ei ddarparu yn unol â'r maes llafur lleol y cytunwyd arno.*
2. *Mewn ysgolion rheoledig gwirfoddol a chymunedol, mae'n rhaid ei darparu yn unol â'r maes llafur cytunedig lleol.*

SYLWADAU:

1. Yn enghreifftiau Afl.1, Afl.2 ac Afl. 3 mae'r ymgeiswyr wedi anghofio mai'r gair 'addysg', sef enw benywaidd, sydd dan sylw ac felly nid oes angen treigladd meddal ar ôl y rhagenw 'ei'. *rhaid ei darparu, dylid ei darparu a gael ei darparu* sy'n gywir. Yn enghraifft Ll.1 mae'r ymgeisydd yn gywir i dreiglo 'darparu' yn feddal gan ei fod wedi ychwanegu'r gair 'pwnc' sy'n enw gwrywaidd.
2. Yn yr un modd, yn enghraifft Afl.3 mae angen defnyddio 'iddi' ac nid *iddo* wrth gyfeirio at enw benywaidd.
3. Nid yw *dylid* (enghraifft Afl.2) yn cyfleu grym y gair '**must**' yn y Saesneg; *rhaid* fyddai'n fwy priodol.
4. Mae'r gystrawen 'rhaid i...' (enghraifft Afl.4) yn achosi treigladd meddal i'r berfenw dilynol ac felly *rhaid i AG gael ei darparu* sy'n gywir.

7. **Cyfair/ Cywirdeb/ Ystyr** **Parents have the right to withdraw their children from RE...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant o'r dosbarth AG*
2. *Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant allan o ddosbarthiadau AG*
3. *Mae gan rieni'r hawl i wrthod AG i'w plant*
4. *Mae hawl gan rieni atal eu plant rhag derbyn AG*
5. *Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl rhag derbyn Addysg Grefyddol*

6. *Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant oddi ar y rhestr Addysg Grefyddol*
7. *Mae gan rieni'r hawl i atal eu plant rhag astudio AG*
8. *Mae gan rieni'r hawl i neilltuo'u plant o AG*
9. *Mae gan rieni hawl i ymneilltuo eu plant o wersi AG*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o wersi AG*

SYLWADAU:

1. Dyma frawddeg arall a oedd wedi baglu sawl un ac mae llawer o'r enghreifftiau aflwyddiannus yn swnio'n chwithig iawn. Yn enghreifftiau Afl.1 ac Afl.2 mae ychwanegu *dosbarth/ dosbarthiadau* yn newid yr ystyr braidd a byddai ychwanegu'r gair *gwersi* (gweler yr enghraifft llwyddiannus) wedi bod yn fwy effeithiol. Nid yw'r gair *atal* yn enghreifftiau Afl.4 ac Afl.7 yn llwyddo i gyfleu'r ystyr yn gywir chwaith. Yn enghreifftiau Afl.8 ac Afl.9 mae *neilltuo* ac *ymneilltuo* yn dangos tuedd i ddewis gair heb ddeall y cyd-destun yn iawn. Gall geiriadur a thesawrus Saesneg fod o gymorth yn hyn o beth gan eich helpu i ddeall yr ystyr cyn mynd ati i gyfieithu.

2. Hefyd, o ran enghraifft Afl.4, noder bod '*hawl i* wneud rhywbeth' sy'n gywir yn Gymraeg.

## CYFFREDINOL

\* **Cywirdeb** Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

- *adlewyrchu'r faith*
- *dygediaethau*
- *corf llywodraethol*
- *dosbarthaiadau*

SYLW:

Byddai gwirydd sillafu Cymraeg wedi tynnu sylw at lawer o'r rhain. Mae'n bwysig sicrhau hefyd fod iaith y rhaglen wedi'i newid i Gymraeg gan ei bod yn ddigon posibl bod gwirydd sillafu Saesneg wedi newid 'faith' i 'faith' a 'corff' i 'corf' yn awtomatig yn yr enghreifftiau hyn.

## SYLW CYFFREDINOL

Mae'n bwysig iawn ichi olygu eich gwaith yn fanwl. Hefyd mae argraffu'r cyfieithiad a'i ddarllen yn ofalus ochr yn ochr â'r fersiwn gwreiddiol yn gallu eich helpu i sylwi ar wallau o ran cywirdeb a manau lle y gellid cyfleu'r ystyr yn well ac mewn ffordd fwy naturiol yn Gymraeg.